SESIWN 4: ADRODD STORI

Ystod oedran: 5-8 oed **Amser: 1 awr**

Amlinelliad Bydd y dysgwyr yn adrodd y stori sy'n gefndir i'r llun a grëwyd ganddynt yn ystod Sesiwn 3. Byddant yn gwneud hyn ar lafar ac yna yn ysgrifenedig.	
Amcanion dysgu • Meithrin dealltwriaeth o brif gynhwysion stori (cymeriadau, lleoliadau a digwyddiadau). • Ymarfer brawddegau strwythuredig ar lafar. • Ysgrifennu disgrifiadau sy'n glir ac yn ddigon manwl i ennyn diddordeb y darllenydd.	**Deilliannau dysgu** • Bydd y dysgwyr yn adrodd y stori sy'n gefndir i lun ar lafar, gan egluro'r cymeriadau, yr hyn sy'n digwydd, y lleoliad, a pham y mae'r stori'n bwysig. • Bydd y dysgwyr yn ysgrifennu'r stori sy'n gefndir i lun, gan adeiladu ar yr wybodaeth a roddwyd pan fu iddynt adrodd eu stori ar lafar.
Cwestiynau allweddol • Pwy sydd yn y llun? • Ble y cafodd y llun ei dynnu? • Pryd y cafodd y llun ei dynnu? • Beth sy'n digwydd yn y llun? • Pam yr ydych yn meddwl bod hwn yn llun pwysig i'w rannu ag eraill?	**Adnoddau** • Sioe sleidiau: sleid 23 • Taflen waith: *Pa stori y byddwch yn ei hadrodd?* o Sesiwn 3, gyda llun pob dysgwr wedi'i atodi. • Taflen waith: *Adrodd stori,* gyda llun pob dysgwr wedi'i atodi.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

OXFAM

Amlinelliad o'r gweithgareddau

Paratoi

- Bydd angen dau gopi o lun pob dysgwr arnoch chi. Cyn i'r wers ddechrau, bydd angen gludo un llun at gopi o'r daflen waith *Pa stori fyddwch chi'n ei hadrodd?* a llun arall at y daflen waith *Adrodd stori.*

Tasg gychwynnol *(15 munud)*
Adrodd stori ar lafar

- Rhowch i bob dysgwr gopi o'r daflen waith *Pa stori fyddwch chi'n ei hadrodd?* a gwblhawyd ganddo/ganddi yn ystod Sesiwn 3, yn ogystal â'r nodiadau a wnaed ganddo/ganddi yn y wers honno.
- Defnyddiwch daflen waith wedi'i llenwi i fodelu sut i adrodd y stori sy'n gefndir i lun ar lafar wrth weddill y dosbarth. Defnyddiwch y dechreuwyr brawddegau a ganlyn (fe'u dangosir ar sleid 23 hefyd):
    - Tynnais y llun hwn o _____ *(**Pwy** sydd yn y llun?)* yn _____ *(**Ble y** cafodd y llun ei dynnu?).*
    - Tynnais y llun _____ (***Pryd*** y cafodd y llun ei dynnu?).
    - Mae e / Mae hi / Maen nhw _____ *(**Beth** sy'n digwydd yn y llun?)*.
    - Trwy dynnu'r llun hwn, roeddwn am ddangos _____ *(**Pam** yr ydych yn meddwl bod hwn yn llun pwysig i'w rannu ag eraill?).*
- Eglurwch sut y mae defnyddio'r strwythur hwn i ysgrifennu yn eich helpu i gofio pob un o'r pwyntiau pwysig yr ydych am ei wneud.
- Gofynnwch i bob dysgwr rannu'r stori sy'n gefndir i'w lun ar lafar â'i bartner, gan ddefnyddio'r dechreuwyr brawddegau fel canllaw.

Gweithgaredd 4.1 *(30 munud)*
Ysgrifennu stori

- Rhowch gopi o'r daflen waith *Adrodd stori* i'r dysgwyr a gofynnwch iddynt ysgrifennu am eu llun, gan adeiladu ar y nodiadau a wnaed ganddynt a'r adroddiad llafar a roddwyd ganddynt eisoes.
- Gan ddibynnu ar allu'r dysgwyr, gellir gwneud yr ymarfer hwn mewn ffyrdd amrywiol. Gallech ofyn i'r dysgwyr gwblhau'r brawddegau a ddechreuwyd eisoes gan ddefnyddio eu syniadau eu hunain, neu gallech ddefnyddio rhai o'r syniadau trawsgwricwlaidd a ddarperir yn y Trosolwg i Athrawon os hoffech greu gweithgaredd mwy heriol.

Gwahaniaethu
Gwneud pethau'n haws: Gofynnwch i'r dysgwyr greu labeli i egluro eu lluniau, yn hytrach nag ysgrifennu brawddegau. Dylent ysgrifennu labeli i ddangos:

- ***Pwy** sydd yn y llun?*
- ***Ble** y cafodd y llun ei dynnu?*
- ***Pryd** y cafodd y llun ei dynnu?*
- ***Beth** sy'n digwydd yn y llun?*

*Gallai'r dysgwyr egluro ar lafar **pam** ei fod yn llun pwysig i'w rannu ag eraill.*

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Gwneud pethau'n anos: Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu'r stori gan ddefnyddio eu geiriau eu hunain i ddechrau'r brawddegau, ond gan ddefnyddio'r strwythur hwn ar gyfer eu hysgrifennu:

- ***Pwy** sydd yn y llun?*
- ***Ble** y cafodd y llun ei dynnu?*
- ***Pryd** y cafodd y llun ei dynnu?*
- ***Beth** sy'n digwydd yn y llun?*
- ***Pam** yr ydych yn meddwl bod hwn yn llun pwysig i'w rannu ag eraill?*

Dylid annog y dysgwyr i ysgrifennu mwy nag un frawddeg i ateb pob cwestiwn ac i estyn eu syniadau drwy ddefnyddio geirfa ac ymadroddion diddorol, yn ogystal â rhoi mwy o fanylion.

Sesiwn lawn *(15 munud)*

- Cyfeiriwch yn ôl at Sesiwn 2 lle y bu i'r dysgwyr nodi'r prif eiriau, ymadroddion a manylion i'w cynnwys yn eu mapiau testun a'u defnyddio i ailadrodd y stori ar lafar. Gofynnwch i'r dysgwyr ailadrodd yr ymarfer hwn gyda'u darnau ysgrifenedig nhw, a rhannu'r enghreifftiau sydd fwyaf llwyddiannus yn eu tyb nhw. Yn olaf, darllenwch ddarn ysgrifenedig un o'r disgyblion i'r dosbarth, ac oedwch ar ôl y brawddegau y byddai modd eu gwella. Bydd hyn yn helpu'r dysgwyr i ddeall y broses o olygu gwaith ysgrifenedig.

Syniadau pellach

- Gallai'r dysgwyr rannu eu darnau ysgrifenedig â gweddill y dosbarth drwy eu darllen yn uchel, drwy greu llyfryn dosbarth, neu drwy arddangos y taflenni gwaith *Adrodd stori.*
- Gallai'r dysgwyr barhau i ddatblygu'r darnau ysgrifenedig hyn yn ystod y wers nesaf, gan ddefnyddio'r syniadau a rannwyd yn ystod y sesiwn lawn neu'r rheiny a roddwyd ar y Wal Weithio.

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB
Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect ei gyflawni.

Adrodd stori



Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.